Cydymdeimlad a Chofion

Gyda thristwch y clywyd yr wythnos ddiwethaf am farwolaeth Mr Dewi Lloyd Jones (Groes), mab caredig a gofalgar i Maria, a brawd hoffus i Huw (hwythau hefyd yn aelodau yng Nghapel Groes). Roedd Dewi yn berson tawel, diymhongar a gweithgar, ac estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â'r teulu i gyd yn eu colled fawr. Nid dyma'r unig brofedigaeth y maen nhw fel teulu wedi gorfod ei wynebu yn y blynyddoedd diwethaf hyn a gweddïwn y byddant eto yn adnabod heddwch a thangnefedd cwmni'r Arglwydd Iesu. *"Y mae'r ARGLWYDD yn agos at y drylliedig o galon ac yn gwaredu'r briwedig o ysbryd."* (Salm 34:18)

Parhawn i gofio am Eurgain Pierce (Llannefydd) sy'n cael gofal yn yr Inffirmari, fel ag y mae Gwilym Davies (Llansannan) erbyn hyn. Diolchwn amdanynt, a chyflwynwn hwy i'r Arglwydd, gan ofyn Iddo gysgodi drostynt, a gwylio dros eu hanwyliaid yr un modd. Cofiwn hefyd am y rhai hynny sy'n wynebu llawdriniaeth neu wedi cael llawdriniaeth yn ddiweddar. Dymunwn wellhad llwyr a buan iddynt.

Anfonwn ein cofion at bawb arall ohonoch o'r ofalaeth ac yn arbennig felly y rhai sydd heb fod yn dda eich iechyd ar hyn o bryd. Hyderwn y byddwch yn profi daioni'r Arglwydd yn eich cynnal yn eich angen.

Gŵyl Llanw 2024

Cynhelir yr ŵyl Gristnogol hon eleni eto yng Ngwersyll yr Urdd, Llangrannog ar Ebrill 1af–5ed. Y prif siaradwr bore Llun, bore Mawrth a bore Mercher fydd Arfon Jones, a gyda'r nos, bydd Martyn Geraint, Heulwen Davies, Steffan Jones, Steff Morris a Lois Franks ac eraill yn arwain yr oedfaon/cyfarfodydd. Bydd darpariaeth ar gyfer y plant a'r ieuenctid hefyd. Cymraeg fydd iaith holl weithgaredd a chyfarfodydd Llanw ond bydd offer cyfieithu ar gael yn y prif oedfaon. Bydd croeso i bawb ymuno yn y cyfarfodydd. I gael mwy o fanylion ac er mwyn archebu tocynnau, ewch i wefan Llanw: https://llanw.org/llanw-24.

Manylion Cyswllt

Mair – mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 07900 627536

Cyhoeddiadau ar gyfer y rhifyn nesaf i'w hanfon i Mair erbyn nos Fercher (21ain), os gwelwch yn dda.

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 11 Chwefror 2024

eglwysibroaled.com *rhaglendorcas.com* *llanw.org*

Y Brenin dioddefus

Fuon nhw ddim yn dridiau da i Rishi Sunak. Ymysg peth eraill, tynnodd nyth cacwn i'w ben ddechrau'r wythnos trwy fynnu bod y rhod yn troi a phethau'n gwella o ran morgeisi, biliau a chostau byw. Unwaith eto, yn gam neu gymwys er nad yn annisgwyl oherwydd ei gyfoeth diarhebol, cyhuddwyd y Prif Weinidog o fod yn ddi-glem ynglŷn ag amgylchiadau ariannol cyfran helaeth o bobl y gwledydd hyn. Bu'r cyhuddiad hwn yn faen melin am ei wddf ers misoedd. Boed hynny'n deg ai peidio, waeth pa mor ddiffuant y ceisia Mr Sunak fod, mae'n anodd os nad yn amhosibl gan y rhelyw o bobl gredu y gall biliwnydd amgyffred eu hymdrech i gael dau ben llinyn ynghyd.

Thorrais i'r un gair â'r Brenin Charles. Fûm i erioed yn ei gwmni. Rhaid cyfaddef i mi fod ar adegau'n ddigon difrïol ohono. Nid ei fod o'n ymwybodol o hynny chwaith. A go brin y byddai wedi colli cwsg y llynedd o wybod na welais i'r un eiliad o ddathliadau ei goroni. Ond un peth na fu i mi ei amau yw diffuantrwydd ei gefnogaeth i'r gwahanol achosion y mae'n lladmerydd drostynt. Pa hawl sydd gen i na neb arall i amau didwylledd ei nawdd i lu o elusennau, yn cynnwys Cefnogaeth Cancr Macmillan ers chwarter canrif? Trwy ei ymweliadau mynych ag amrywiol wasanaethau'r elusen, mae wedi gweld ac wedi cydymdeimlo â phobl sy'n mynd trwy'r drin. Ond nid syndod heddiw os yw'r cydymdeimlad hwnnw ganwaith cymaint, ac yntau wedi cael gwybod ei fod yn dioddef o'r afiechyd. Wrth reswm, dymunwn iddo adferiad llwyr.

Nid arweinydd na brenin sy'n rhy gyfoethog na phwysig i ddeall ein hanghenion a'n gwendid yw'r Arglwydd Iesu Grist, ond un sy'n cydymdeimlo'n llawn â'n gwendid a'n hangen. Fedr neb ei gyhuddo o beidio â deall ein hamgylchiadau a'n trafferthion gan iddo ddod i'w canol, wrth ddod i'n byd. Mwy rhyfeddol fyth yw'r ffaith fod y Brenin hwn wedi dewis dod: dewis bod yn ddyn; dewis gwendid; dewis temtasiynau; dewis treialon; dewis dioddef; dewis dwyn ein beiau; a dewis marw hyd yn oed. Dewis y cyfan er mwyn cynnig i ni gysur, cymorth, llawenydd, maddeuant, bywyd a gobaith y nefoedd. Nid Duw pell a dieithr sydd gennym, ond Duw a ddangosodd ei ofal a'i gonsyrn yn y modd mwyaf syfrdanol wrth iddo roi ei Fab i ddwyn ein clwyf a'i ganlyniadau yn ein lle.

Cyfnewid gogoniant am ddyndod annedwydd,
A derbyn ein gwaeledd er dwyn ein cywilydd.

Y Parch. John Pritchard

Cyhoeddiadau'r Fro

Dydd Sul, Chwefror 11eg

- **Oedfa yn Llansannan** am 9:30 ac **yn Llanfair** am 11:00 o dan arweiniad y Parch. John Pritchard. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydredeg â'r oedfa yn Llansannan.
- **Oedfa yn Groes** am 9:30 ac **yng Nghefn Berain** am 11:00 o dan arweiniad Mr Alun Jones. Bydd yr Ysgol Sul yn dilyn yr oedfa yn Groes, ac Ysgol Sul y plant yn Henllan am 10:30.
- **'Gwreiddiau' –** Amser o addoliad ar y cyd â Bro Dinbych yng Nghanolfan Eirianfa, Dinbych am 3:00 y pnawn.

Dydd Mawrth, Chwefror 13eg

- **Cinio Jangl** yn Festri Llansannan am 12:00.
- **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Groes am 7:30 yr hwyr.

Dydd Mercher, Chwefror 14eg

- **Cymdeithas Capel Henllan –** Cynhelir cwis dan ofal Mrs Mair Beech Williams, Llannefydd yn Festri'r Capel am 7:30 yr hwyr. Croeso cynnes i bawb.

Dydd Sul, Chwefror 18fed

- **Oedfa Gymun yng Nghefn Meiriadog** am 9:30 ac **yn Llansannan** am 11:00 o dan arweiniad y Parch. Hywel Meredydd. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydredeg â'r oedfa yn Llansannan.
- **Oedfa yn Henllan** am 9:30 ac **yn Llannefydd** am 11:00 o dan arweiniad y Parch. Robert O. Roberts. Bydd yr Ysgol Sul yn cydredeg â'r oedfa yn Llannefydd.
- **Oedfa yn Saron** am 10:00 ac **yn Nantglyn** am 2:00 o dan arweiniad y Parch. Meirion Morris.
- **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6:00 yr hwyr gyda Huw Tan y Graig yn arwain a'r Parch. Meirion Morris yn pregethu.
- **'Gwreiddiau' –** Amser o addoliad ar y cyd â Bro Dinbych yng Nghanolfan Eirianfa, Dinbych am 3:00 y pnawn.

Dydd Llun, Chwefror 19eg

- **Astudiaeth Feiblaidd ar ZOOM:** 'Grym Gweddi' o dan arweiniad gweithwyr Dorcas am 7:00 yr hwyr. (Trefnir gan Is-bwyllgor Chwiorydd EBC.) Cysylltwch â'r swyddfa i gael y ddolen i gysylltu (01678 520565).

Dydd Mawrth, Chwefror 20fed

- **Cinio Jangl** yn Festri Llansannan am 12:00.
- **Cyfarfod Blynyddol Eglwys Unedig Llansannan** yn y Festri am 7:30 yr hwyr. Croeso i bob aelod o'r eglwys.

Dydd Iau, Chwefror 22ain

- **Hwyl Pnawn Iau (ar gyfer oedran derbyn – Bl.6)** yn Llansannan o 3:15–4:30 y pnawn. Os oes plant eraill am ymuno, wnewch chi gysylltu hefo Anti Olwen (07359 154228) i gofrestru ac i nodi unrhyw alergeddau, os gwelwch yn dda?

Dydd Sul, Chwefror 25ain

- **Dydd Gweddi'r Byd yn Llansannan** am 9:30 ac **yn Llanfair** am 10:00 ac **yng Nghefn Meiriadog** am 10:30. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydredeg â'r oedfa yn Llansannan.
- **Oedfa yng Nghefn Berain** am 9:30 ac **yn Groes** am 11:00 o dan arweiniad y Parch. John Robinson. Bydd Ysgol Sul yn Henllan am 10:00 ac yn Groes am 10:15.
- **'Gwreiddiau' –** Amser o addoliad ar y cyd â Bro Dinbych yng Nghanolfan Eirianfa, Dinbych am 3:00 y pnawn.

Rhaghysbysiad

- **Cymdeithas Llansannan** – Sylwch bod y dyddiad wedi newid o nos Lun, Chwefror 19eg i nos Fawrth, Chwefror 27ain pryd y bydd Richard Vernon, Llansannan yn mynd â ni "Ar Daith" am 7:30 yr hwyr.

Coleg y Bala

- **Chwalfa Chwefror (Chwefror 12fed–13eg) –** deuddydd i blant 8-11 oed fydd yn llawn gemau, crefft, nofio, crempogau, sialensiau tîm, sgyrsiau byr ar beth mae'n ei olygu pan mae Iesu'n galw ei hun yn "Bara'r Bywyd", a llawer mwy... Cost y penwythnos fydd £49.
- **Cwrs Ieuenctid (Chwefror 16eg–18fed) –** penwythnos i bobl ifanc blynyddoedd 7-10. Bydd y penwythnos yn llawn gemau gwirion, sialensiau tîm, nofio, *footgolf*, crefft, canu, noson 'têc awê', 'Bingo Boncyrs' a lot mwy..., a hefyd byddwn yn edrych gyda'n gilydd ar yr adnod "Profwch a gwelwch mai da yw'r Arglwydd."

Mae'n bosib cofrestru ar-lein (colegybala.org) neu trwy ffonio 01678 520565. (Cofiwch mai hanner y pris fydd y gost i'r ail neu drydydd person o'r un teulu, a bod Eglwysi Bro Aled yn cynnig £10 o ostyngiad i bob disgybl mewn addysg fydd am fynychu ac sy'n byw o fewn dalgylch yr Ofalaeth.)